

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWDYD YN Y NEUADD GYMUNEDOL NOS LUN, Y 7FED O DACHWEDD 2022 AM 19.00 O'R GLOCH

|                         |                         |                      |
|-------------------------|-------------------------|----------------------|
|                         |                         |                      |
| <b><u>PRESENNOL</u></b> | <b><u>CADEIRYDD</u></b> | H HUGHES (dros Zoom) |
|                         |                         | R DALTON             |
|                         |                         | A HUGHES (dros Zoom) |
|                         |                         | G B JONES            |
|                         |                         | A J MORRIS           |
|                         |                         | N SALMON             |
|                         |                         | H WILLIAMS           |
|                         |                         | C BAINBRIDGE         |
|                         |                         | M GRIFFITHS          |
|                         |                         | D PRYCE JONES        |
| <b>YN BRESENNOL</b>     | <b><u>CLERC</u></b>     | I RAILTON            |
|                         |                         | 3 AELOD O'R CYHOEDD  |
|                         |                         |                      |

**YMDDIHEURIADAU**

150. Ceisiodd y Cynghorydd A Thomas ymuno â'r cyfarfod trwy Zoom ond ni lwyddodd.

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

151. Ni chafwyd dim sylwadau gan y cyhoedd.

**DATGAN BUDDIANNAU**

152. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod.

**COFNODION Y CYFARFOD MISOL A'R CYFARFOD ARBENNIG**

153. Cyfarfod mis Hydref

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd o bell ar y 3ydd o Hydref. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Jones a'r eilydd oedd y Cynghorydd Morris. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid hyn.

154. Cyfarfod Arbennig

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd o bell ar yr 17eg o Hydref. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Bainbridge a'r eilydd oedd y Cynghorydd Jones. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid hyn.

Roedd y Cynghorydd Bainbridge am ofyn a oedd Grŵp 2030 wedi ymchwilio i'r llwybr gweithgareddau. Gofynnodd y Cynghorydd Hughes i'r Cynghorydd Bainbridge gysylltu â'r grŵp i gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y trafodwyd y mater yn y cyfarfod diwethaf (trafodir hyn eto yng Nghofnod 173 y cyfarfod hwn).

## **MATERION YN CODI**

155. Anfonwyd llythyrau at Ieuan Ellis, Ronnie Davies a Ray Quant i'w llongyfarch ar ôl y cyfarfod diwethaf.

156. Cofnododd y Clerc rai materion drwy'r system CLIC a oedd yn ymwneud â chlirio draeniau (camau a gymerwyd gan y Cyngor). Anfonodd y Cyngor Sir 'restr o rifau defnyddiol' i'w hychwanegu at hysbysfyrddau. Bydd hyn yn cael ei wneud yn fuan. Rydym yn aros am ymateb ynglŷn â chais am fin baw cŵn a chasgen ddŵr y tu allan i adeilad yr RNLI. Mae'r Cynghorydd A Hughes wedi archebu arwydd ar gyfer y Parc Cychod. Cytunwyd i beidio â gwario mwy na £30 yng nghyfarfod mis Hydref, Cofnod 121. Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â rac beiciau.

Gofynnodd y Cynghorydd Salmon a oedd y draen y tu allan i Siop Premier wedi'i chlirio yn rhan o'r gwaith clirio draeniau diweddar. Cofnodwyd hyn yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y bydd yn holi ynghylch y mater. Bydd y Clerc yn defnyddio'r system CLIC unwaith eto i sôn am y draen benodol hon.

Dywedodd y Cynghorydd Morris fod y tîm wedi gwneud gwaith da iawn ond roedd ceir yn dal i orchuddio rhai o'r cafnau. Rhoddwyd digon o rybudd i drigolion. Roedd 1 cafn yn arbennig o galed ac wedi'i orchuddio â choncrit a phlastr.

Cynhigiodd y Cynghorydd Williams y dylid anfon e-bost i ddweud diolch, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Salmon. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Awgrymwyd hefyd y dylid holi yn y neges hon a yw'r Borth wedi'i chynnwys yn yr amserlen clirio draeniau neu a yw hwn yn waith *ad hoc*.

Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge a oeddent wedi mynd cyn belled â draeniau'r clwb golff, gan y cafwyd problemau yno rai wythnosau yn ôl.

157. Mae'r Is-bwyllgor wedi cwrdd i drafod yswiriant am fod perchnogaeth y Cyngor yn fater sy'n dal i gael ei drafod. Y gobaith yw cynnal cyfarfod ym mis Ionawr. Mae gwaith ar y mapiau/dyfrffosydd/parc cychod yn parhau.

158. Sul y Cofio. Trefnwyd torchau gan Leng Brydeinig y Borth. Mae'r Cynghorydd Griffiths wedi gwirfoddoli i gyflwyno'r dorch ar ran y Cyngor ddydd Sul. Mae Lleng Brydeinig y Borth wedi dweud y byddant yn anfon anfoneb i'r Cyngor ac na fydd yn fwy na £50. Cynhigiodd y Cynghorydd Hughes y dylid awdurdodi'r taliad. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bainbridge. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

159. Cynhaliwyd prawf ar roden felit heneb y Borth ac roedd yn llwyddiannus. Rydym yn aros am anfoneb. Cytunwyd ym mis Hydref mai'r gost fyddai £250, Cofnod 123.

160. Y Nadolig. Mae'r Cyngor yn ansicr o'r trefniadau ar hyn o bryd ar gyfer y Nadolig. Mae Jo Wilcox wedi siarad â'r Cynghorwyr i weld sut y gallai fod o gymorth. Gwyddai'r Cynghorwyr bod coeden fel arfer yn cael ei chyflenwi. Bydd y Cynghorydd Jones yn cysylltu. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu â M Walker (y Clerc blaenorol) i wybod beth yw'r trefniadau a phwy sydd â'r goleuadau.

Cynhigiodd y Cynghorydd Morris na ddylid gwario mwy na £500 ar y goeden a'r goleuadau. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dalton. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

## **GOHEBIAETH**

161. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Daeth gohebiaeth arall i law nad oedd angen gweithredu arni oddi wrth Hwb Cymunedol Borth.

161. Mae'r praesept oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion i fod i gyrraedd y cyfrif ar 31/10/2022. Y swm fydd £6556.

162. E-bost ynglŷn â Mainc/Tarian Goffa. Trafodwyd y mater ymhlith y Cynghorwyr. Maent bellach o'r farn y gallai'r Carnifal fod yn achlysur amhriodol i gyflwyno tarian goffa. Fodd bynnag, bydd y Cynghorydd Bainbridge yn ymchwilio i'r mater am fod yr ysgol leol yn ddiweddar wedi cael offerynnau cerdd newydd, sydd, yn ôl pob tebyg, yn fwy addas. Bydd y Clerc yn anfon yr e-bost oddi wrth breswlydd at y Cynghorydd Bainbridge. Cytunwyd i aros am ragor o wybodaeth.

163. Cais Neuadd Gymunedol y Borth am arian. Mae'r Neuadd wedi gofyn am y taliad llawn y cytunwyd arno, sef £8000, am fod costau sylweddol ar y gorwel. Ni wrthwynebodd neb. Cytunwyd i wneud hyn yn rhan o'r amserlen dalu.

164. Cais Robert Griffiths am arian. Daeth cais i law am £1872. Mae'r anfoneb yn nodi y bydd angen talu £1440 am y gwaith y cytunwyd arno, £70 ar gyfer y parc cychod a £40 ar gyfer tro Ynyslas. TAW: £312. Mynegodd y Cynghorydd Jones bryder fod hwn yn uwch na'r £1500 y cytunwyd arno. Serch hynny, mae'n deall bod y gwaith ychwanegol wedi cynyddu'r gost. Dywedodd y Cynghorydd H Hughes fod dyletswydd ar y Cyngor i dalu'r anfoneb ac awgrymodd y Cynghorwyr eraill y dylid mynd yn ôl at Mr Griffiths i ofyn iddo nodi'n glir ar yr anfoneb pa waith y tendrwyd ar ei gyfer yn ogystal â'r gwaith ychwanegol. Bydd y Clerc yn cysylltu â Mr Griffiths i'w holi.

165. Llythyr oddi wrth Un Llais Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am Godiad Cyflog i Glercod. Bydd y Clerc yn cyfrifo faint sy'n daladwy i Margaret a bydd yn ôl-ddyddio'r taliad hwnnw.

## **CYFRIFON**

|  |                    |
|--|--------------------|
| 166. <b><u>Gweddill y Cyfrifon ar y 13eg o Hydref 2022</u></b> |                    |
| Nationwide   | £25,312.45         |
| Cyfrif Banc Elusennol  | £11,443.71         |
| Cyfrif Busnes Dim Rhybudd                                      | £7,451.30          |
| Cyfrif Adnau   | £3,830.90          |
| 167. <b><u>INCWM</u></b>                                       | Ddim yn berthnasol |

**168. Gwariant - Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol.** Y cynigydd oedd y Cynghorydd Jones a'r eilydd oedd y Cynghorydd Bainbridge. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

|   |           |
|---|-----------|
| Ffioedd y Cyfrif Banc Elusennol   | £6.69     |
| I Railton – Cyflog – Hydref   | £663.65   |
| Heledd Davies – Cyfieithu Cofnodion Hydref a Chofnodion y Cyfarfod Arbennig.  | £254.15   |
| Premiwm yr Yswiriant Blynyddol (a gymeradwywyd yng nghyfarfod mis Hydref). Roedd sic eisoes wedi'i chlirio ac roedd y swm eisoes wedi'i dynnu oddi ar gyfansymiau mis Hydref. | £1334.15  |
| Costau Hyfforddi Diffibrilwyr (wedi'i gymeradwyo'n flaenorol)   | £30.00    |
| Cynllun Talu Wrth Ennill - Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi   | £271.56   |
| Cymdeithas Chwaraeon a Chaeau Chwarae'r Borth   | £8,000.00 |
| Y Cynghorydd A Hughes (arwydd y parc cychod)  | £26.99    |

169. Mae'r Clerc wrthi'n gwneud cais i fancio ar-lein â banc yr HSBC.

## **CYNLLUNIO**

NI DDAETH DIM CEISIADAU CYNLLUNIO I LAW Y MIS HWN.

## **AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD**

170. Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd H Hughes am y cynnydd. Rhaid cysylltu â llawer o bobl er mwyn ceisio cael y maen i'r wal â'r cynllun hwn. Mae'r papur lleol hefyd wedi cysylltu â'r Cynghorydd H Hughes gan ddweud ei fod am ysgrifennu stori am y ffaith nad yw'r sefyllfa'n symud yn ei blaen rhyw lawer.

Cododd y Cynghorydd Salmon bryderon am y sylw y mae'r mater hwn yn ei gael yn y cyfryngau. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jones, ac ategodd fod hwn yn fater anodd. Soniodd y Cynghorydd Jones fod y Friog bellach yn cydweithio'n dda â Chyfoeth Naturiol Cymru, fel y gwelwyd yn ddiweddar yn y cyfryngau.

Dywedodd y Cynghorydd Dalton fod yr ardal yn ei chyflwr gwaethaf ers blynyddoedd lawer am fod y **grwynau** bellach yn agored i'r elfennau.

Gofynnodd y Cynghorydd Pryce-Jones a oedd hi'n werth cysylltu â Ben Lake.

Awgrymodd y Cynghorydd Bainbridge y dylid cael deiseb. Trafodwyd a fyddai'r Cynghorwyr yn gallu llofnodi deiseb.

Rhannodd y Cynghorydd A Hughes adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru 2020/2021 sy'n dangos faint sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer rheoli llifogydd.

Bydd y Cynghorydd H Hughes yn parhau i roi pwysau ar Gyngor Sir Ceredigion a bydd y Clerc yn ceisio mynd ar drywydd y mater â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r mater yn parhau.

## **Y WAL GYFERBYN Â SIOP PREMIER**

171. Fel yn yr e-byst o fewn y Cyngor, y newyddion diweddaraf yw bod Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu dod allan i archwilio'r wal. Y farn yw y byddai'r Cyngor yn gosod ffens

heb ragfarnu. Daeth e-bost i law oddi wrth Huw Bates i ddweud bod yr archwiliad wedi'i gynnal a'i fod yn aros am y casgliadau. Mae'r mater yn parhau.

## **GWEFAN Y CYNGOR A'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

172. Cylchredwyd dyfynbris oddi wrth Eyelid Productions. Mae'r Clerc wedi ymchwilio i wahanol gwmnïau ond cyflwynodd y dyfynbris hwn i'r Cyngor am fod y costau am y 3 blynedd nesaf yn dryloyw ac oherwydd y gwasanaethau sy'n cael eu rhoi. Trafodwyd y mater ac roedd pawb yn gytûn bod angen gwefan newydd a'i gyfeiriad e-bost ei hun ar y Cyngor. Cododd y Cynghorydd H Hughes bryder ynglŷn ag a oedd gan y Cyngor ddigon o arian i dalu am hyn y mis hwn. Cynhigiodd y Cynghorydd Bainbridge y gallem ddod o hyd i ragor o wybodaeth a cheisio cytuno ar y manylion terfynol yn y flwyddyn newydd gyda'r cwmni, petai hynny'n addas, a hynny am £1000 fel y dyfynnwyd. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dalton. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Bydd y Clerc yn mynd at y cwmni â'r ymholiadau hyn a bydd yn gwirio a fyddent yn fodlon bwrw 'mlaen â phethau ar ôl cyfarfod mis Rhagfyr.

Cystadleuaeth logo - Cyflwynodd y Clerc reolau drafft a ffurflenni cystadlu i'w trafod. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn newid rhyw eiriad er mwyn ychwanegu bod gan y Cyngor yr hawl i beidio â defnyddio'r un dyluniad os nad oedd yn addas. Nodwyd hefyd y dylai fod gan y Cyngor yr hawl i newid y dyluniad. Dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai angen gallu ei drosi'n ddyluniad du a gwyn a dywedodd y Cynghorydd Morris y byddai angen iddo gyd-fynd â'r ddelwedd gorfforaethol a graddfa'r hyn oedd yn cael ei ddylunio. Cynhigiodd y Cynghorydd Jones fod y rheolau'n addas i'w diben ac y dylid newid y dyddiad cau i ganol Ionawr. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Williams. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig

Anfonwyd y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol at y Cynghorwyr dros e-bost. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Griffiths a'r eilydd oedd y Cynghorydd Williams. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

## **Y DIWEDDARAF YN SGIL CYFARFOD GRŴP IECHYD Y BORTH**

173. Rhoddodd y Cynghorydd Jones ddiweddariad ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd ac ychwanegodd y bydd hon yn eitem sefydlog ar yr agenda yn y dyfodol. Mae llawer o newyddion cadarnhaol o ran Prosiect Comisiwn Bevan. Mae newidiadau cadarnhaol yn dal i ddigwydd yn y Borth hefyd.

Soniodd y Cynghorydd Bainbridge am y trac ffitrwydd a gofynnodd eto ai Grŵp 2030 oedd yn delio â hyn. Dywedodd y Cynghorydd A Hughes fod hwn yn dal i fod yn ymarfer cwmpasu ar gyfer Borth 2030. Cadarnhaodd y Cynghorydd A Hughes ei fod wedi cysylltu â'r grŵp hyfforddi cylchol.

Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp Iechyd y Borth ddydd Iau, y 24ain o Dachwedd 2022.

## **MATERION Y CADEIRYDD**

174. Cadarnhaodd y Cynghorydd H Hughes fod y materion parhaus yn cael sylw, megis yr amddiffynfa fôr a'r wal gyferbyn â Siop Premier. Codwyd pryderon bod cyfnod economaidd anodd ar gychwyn, ac y bydd cyllideb Cyngor Cymuned y Borth am y flwyddyn nesaf yn cael sylw yn fuan, ynghyd â'r gyllideb a osodwyd gan San Steffan.

Cafwyd diweddariad cadarnhaol iawn gan y Cynghorydd H Hughes ynglŷn â system CLIC, ac ategodd iddo gofnodi mater ynglŷn â'r llifogydd yng Nglanwern a Dôl-y-bont. Aed i'r afael â'r problemau hyn yn gyflym dros ben.

## **CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR**

175. Dywedodd y Cynghorydd Griffiths fod y wal ger maes parcio Brynowen wedi'i bwrw i lawr. Mae'r llifogydd ar y stryd gynddrwg fel bod pobl yn cael eu sblasio â dŵr oherwydd y cambr yn y ffordd y tu allan i Dyfi Bell.

Mae toiledau newydd wedi'u gosod yn yr eglwys. Cafwyd gwybod gan y Cynghorydd Salmon y gallai'r toiledau hefyd gael eu defnyddio gan bobl sydd â lotmenti gerllaw. Gofynnodd y Cynghorydd A Hughes a fyddai rhagor o bobl yn gallu defnyddio'r toiledau, ond cadarnhaodd y Cynghorydd Griffiths na fyddai hynny'n bosib. Roedd y Cynghorydd Griffiths am ddiolch i'r Cynghorydd Williams am y cynhyrchiad a lwyfannwyd yn ddiweddar.

Darparodd y Cynghorydd Bainbridge y wybodaeth ddiweddaraf am y Cyngor Iechyd Cymuned. Bydd enw'r Cyngor yn newid i 'Corff Llais y Dinesydd' yn 2023. Mae'r Carnifal hefyd wedi rhoi £10.000 i achosion lleol. Dywedwyd hefyd y dylai Grŵp 2030 gael gair â'r grŵp hyfforddiant cylchol.

Dywedodd y Cynghorydd Morris na chafodd wahoddiad i'r cyfarfod Ardaloedd Draenio Mewnol lleol, ond bod y trefnwyr yn gwybod am hyn a bydd hyn yn cael ei unioni yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd dau wresogydd yn y neuadd yn gweithio. Bydd yn cysylltu â Ray.

Dywedodd y Cynghorydd Salmon fod Ben Lake yn bwriadu ymweld â'r gerddi cymunedol ddydd Iau, y 10fed am 3.15pm ac y byddai'n treulio awr yno. Mae ymchwil yn dal i gael ei gynnal i finiau sy'n gallu gwrthsefyll gwyllanod ac i raciau beic. Bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at Gyngor Sir Ceredigion.

Dywedodd y Cynghorydd Salmon y cynhelir sesiynau codi sbwriel awr eu hyd bob mis am 10.30am.

Dywedodd y Cynghorydd Dalton y bydd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) yn cwrdd nesaf ddydd Iau, y 1af o Ragfyr.

Gofynnodd Clerc a oedd y Cyngor yn fodlon anfon cerdyn at Heledd (cyfieithydd) a fydd yn gorffen fel cyfieithydd yn y flwyddyn newydd. Roedd pawb yn fodlon.

Dywedodd y Cynghorydd A Hughes fod yr hyfforddiant diffibrilwyr yn llwyddiant ac awgrymodd fod pawb yn awgrymu eitemau ar gyfer y gyllideb yn y cyfarfod nesaf.

## **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

176. Yn gysylltiedig â'r diweddariad uchod (174).

## **Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA**

177. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 21.33pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf ar y 5ed o Ragfyr 2022 fydd y Diweddaraf ar Siop Premier, yr Amddiffynfa Fôr a Llifogydd, y Diweddaraf ar y Wefan a'r Diweddaraf ar Fwrdd Iechyd y Borth.

Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu unrhyw eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Clerc yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.